



Rhaglen Waith 2015-16

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu ei Rhaglen Waith ar gyfer 2015-16 yn seiliedig ar y blaenoriaethau yn ei Fframwaith Gweithredu. Ceir disgrifiad isod o fanylion y gwaith sydd ar y gweill yn ystod 2015-2016.

Ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl hŷn ledled Cymru, ac yn ymweld â'r llefydd y maent yn byw eu bywydau ynddynt, fel cartrefi gofal, cynlluniau tai â gofal ychwanegol, grwpiau cefnogi, grwpiau gofalwyr, caffis dementia, canolfannau dydd a chlybiau cymdeithasol.

Bydd y Comisiynydd a'i thîm yn parhau i deithio i bob cwr o Gymru yn ystod 2015-16 fel rhan o Sioe Deithiol Ymgysylltu'r Comisiynydd i sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod am rôl, gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd, a'r ffyrdd y gall roi cymorth a chefnogaeth.

Mae'r Sioe Deithio Ymgysylltu yn rhoi cyfle i'r Comisiynydd a'i thîm gael gwybod mwy am y materion sydd bwysicaf i bobl hŷn yng Nghymru a sicrhau bod eu lleisiau'n parhau i fod wrth wraidd gwaith y Comisiynydd.

Hefyd, bydd y Comisiynydd yn parhau i ymweld yn rheolaidd â staff a gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys ymweliadau y tu allan i oriau swyddfa a gyda'r nos, i weld drosti'i hun yr heriau maent yn eu hwynebu, y gwahaniaeth maent yn ei wneud ac i ba raddau y mae newid gwirioneddol yn digwydd yn y gwasanaethau rheng flaen o ofal a chefnogaeth.

Gwahaniaethu a Rhagfarn ar sail Oed

Yn ystod 2015-16, bydd y Comisiynydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o effaith gwahaniaethu a rhagfarn ar sail oed ar fywydau pobl hŷn a'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon. Bydd yn annog pobl Cymru i sefyll yn erbyn gwahaniaethu ar sail oed, yn ogystal â

hyrwyddo agweddau cadarnhaol ar fynd yn hŷn yng Nghymru a chyfraniad pwysig pobl hŷn i'n cymunedau o safbwynt ariannol a chymdeithasol.

Bydd hyfforddiant ar fynd i'r afael â rhagfarn ar sail oed yn dal i gael ei gyflwyno ledled Cymru i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar bob lefel yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd y Comisiynydd yn edrych yn fanwl ar sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn asesu effaith eu cynlluniau a'u penderfyniadau ar ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru. Hefyd, bydd yn disgwyl i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gryfhau hawliau pobl hŷn fel y maent wedi'u nodi yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau a'r gefnogaeth angenrheidiol i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.

Cam-drin domestig, Amddiffyn a Gwarchod

Nid yw gwasanaethau cyhoeddus, na chymdeithas yn gyffredinol, yn deall yn llwyr eto beth yw natur y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu a'r amgylchiadau sy'n arwain at bobl hŷn yn teimlo'n fwy agored i niwed neu mewn perygl.

Bydd y Comisiynydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch natur ac effaith y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r system cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â'r bylchau sydd yn y gyfraith ar hyn o bryd ynghylch amddiffyn oedolion ac i sicrhau ymrwymiad i gael gwared ar yr hyn sy'n rhwystro pobl hŷn rhag cael mynediad at gyfiawnder.

Adolygiad o Gartrefi Gofal

Yn ôl Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, mae gan ormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, sydd yn aml iawn yn rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ansawdd bywyd annerbyniol. Yn aml nid ydynt yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy. Maent yn colli rheolaeth ystyrion dros eu bywydau a'u gallu i ddewis. Mae eu hanghenion emosiynol yn cael eu diystyru yn ogystal â'u hawliau sylfaenol.

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi'r ymatebion a gafwyd gan y cyrff cyhoeddus a sefydliadau i ganfyddiadau ei Hadolygiad o Ofal Preswyl ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, yn unol â'i Gofynion ar gyfer Gweithredu. Bydd yn parhau i graffu ar weithredoedd y sefydliadau hynny er mwyn sicrhau bod ansawdd bywyd wrth galon y ddarpariaeth o ofal preswyl yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn bwriadu gweithio hefyd gyda sefydliadau i wella meysydd megis gwrandio ar leisiau preswylwyr, gofalu am y rheini sydd â dementia ac adrodd am ansawdd bywyd.

Pobl sy'n dioddef yn sgil dementia

Mae pobl sy'n dioddef yn sgil dementia yn siarad am yr heriau bob dydd maent yn eu hwynebu o ran byw'n dda gyda dementia. Gall hyn gynnwys anawsterau wrth ddefnyddio technoleg; cael gwasanaeth priodol mewn siopau, banciau a swyddfeydd post; defnyddio trafndiaeth; mynd ar wyliau; a chadw cysylltiad cymdeithasol a hobiau.

Mae'r Comisiynydd am weld Cymru yn wlad sy'n cefnogi pobl â dementia drwy ddatblygu a hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia sy'n seiliedig ar yr egwyddorion o roi cefnogaeth a dealltwriaeth gymdeithasol a chyfannol ar draws y gymuned yn hytrach na model meddygol o ofal.

Yn ystod 2015-16 bydd y Comisiynydd yn casglu tystiolaeth i weld i ba raddau y mae darparwyr gwasanaeth yn deall ac yn bodloni anghenion pobl sy'n dioddef yn sgil dementia, gan gynnwys eu gofalwyr.

Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i dynnu sylw at yr effaith a gaiff dementia ar unigolion, yn ogystal â'r effaith ar eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u cymunedau.

Cymorth Uniongyrchol i Bobl Hŷn

Mae Tîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu'r Comisiynydd yn cynnig cefnogaeth, cymorth ac eiriolaeth uniongyrchol i bobl hŷn a'u teuluoedd. Maent yn camu i mewn pan fydd pobl hŷn a'u teuluoedd yn teimlo bod angen fy nghefnogaeth arnynt i herio penderfyniadau ac ymarfer cyrff y sector cyhoeddus.

Mae gwaith achos yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am brofiadau pobl hŷn. Pan fydd unigolion yn codi mater sy'n fwy perthnasol i bobl hŷn, mae'n bosib y bydd y Comisiynydd yn gwneud gwaith pellach, mwy strategol i sicrhau bod sylw'n cael ei roi'r mater.

Yn ystod 2015/16, bydd y Comisiynydd yn parhau i ddarparu cymorth uniongyrchol i bobl hŷn ledled Cymru, gan eu cefnogi i sicrhau canlyniadau gwell, dal ein cyrff cyhoeddus yn atebol a thynnu sylw at feysydd sy'n achosi pryder er mwyn llywio a siapio ymarfer yn awr ac yn y dyfodol.

Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth, Polisi ac Ymarfer

Gan adeiladu ar y gwaith i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a bod pobl yn gwrando arnynt, bydd y Comisiynydd yn parhau i gwrdd â Gweinidogion Cymru a rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel bod polisïau ac ymarfer yn adlewyrchu'r materion a wynebir gan bobl hŷn ac yn diwallu eu hanghenion.

Hefyd, bydd y Comisiynydd yn parhau i fynegi pryderon am rannau o ddeddfwriaeth nad ydynt yn canolbwyntio digon ar bobl hŷn, a chytuno ar y ffyrdd mwyaf effeithiol ymlaen i gyflawni'r newid angenrheidiol.

Yn ystod 2015-16, bydd y prif feysydd gwaith yn cynnwys y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dangosyddion Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chynigion fel y nodir yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu.

Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Mae'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn cael ei chadeirio a'i chyflwyno gan y Comisiynydd, ac mae'n bartneriaeth ar y cyd o sefydliadau a chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector cenedlaethol sy'n cydweithio i sicrhau bod Cymru yn lle da i bawb heneiddio ynddo.

Un nod syml sydd gan y rhaglen – gwella lles pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru. I gyflawni hyn, mae pum prif thema i'r gwaith sy'n cael ei wneud:

- Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran
- Atal Codymau
- Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia
- Dysgu a Chyflogaeth
- Ynysu ac Unigrwydd

Bydd y Rhaglen yn parhau i weithio â sawl rhwydwaith thematig yn ystod 2015-16, gan roi cefnogaeth i'w haelodau wrth iddynt ddarparu amrywiaeth o gynlluniau yn ein cymunedau. Mae'r rhwydweithiau hyn yn ffordd hollbwysig o godi ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar lefel leol i gefnogi pobl i heneiddio'n dda, ac i harneisio a chefnogi camau gweithredu mewn cymunedau. Maent yn defnyddio profiad a gwybodaeth leol i ysgogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni cenedlaethol sy'n well ac yn dwyn mwy o effaith.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth fanylach am unrhyw elfen o Raglen Waith y Comisiynydd ar gyfer 2015-16 a nodir uchod, mae croeso i chi gysylltu â ni (mae'r manylion cysylltu dros y dudalen).



Older People's Commissioner for Wales Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut mae cysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgŵar Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: [@talkolderpeople](https://twitter.com/talkolderpeople)